# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 9 CHWEFROR 2016 50c



# NAWS Y NADOLIG YN 2016



*Miss Ann Roberts a Mr a Mrs Siân Barker yn Oedfa Dydd Nadolig ym Methel*




*Nan Hughes Parry yn cyflwyno breintiau Gŵyl y Geni ar y sgrin ac yn ei darlith gyfoethog ar dorthwy'r Ŵyl*



*Lauren Roberts a'r mab Harri ar fore'r Nadolig cyntaf yn ei hanes*





*Moliant bore'r Nadolig ym Methel*





*Zac a Joshua meibion Dr. Bethan Willis, Rhydychen a Lerpwl.*



*Swyddogion (Norma, Nan a Roderick) ym Mharti Nadolig Cymdeithas Cymry Lerpwl*

**Lluniau: Dr. John G. Williams**

# NOSON FAWR DI-BEN-DRAW

***gan Nan Hughes Parry***



***Prynwyr Di-Ben-Draw!***

Ar nos Lun, 23 Tachwedd a Chapel Bethel yn gysurus ac yn llawn o Gymry brwd o Lerpwl a Manceinion cawsom yr hyfrydwch o lansio cyfrol hardd o hunangofiant ein gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a hynny o dan lywyddiaeth Mr. Elwyn Evans, Manceinion, Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain. Darllenodd nifer o ymddiheuriadau yn cynnwys cerdyn wedi ei lofnodi gan ffyddloniaid Capel Seion, Penbedw a oedd wedi methu dod atom gan fod y Gymdeithas Gymraeg yn cyfarfod yr un noson yn Festri'r Capel. Dibynnir ar gyfeillion Seion i agor a chau'r adeiladau.

Yn ei gyflwyniad graenus mynegodd Mr. Elwyn Evans fraslun o yrfa Dr. D. Ben Rees dros y blynyddoedd a'i gyfraniad i Lerpwl a Chymru. Ef yw'r llais Cymraeg mwyaf hyglyw ar y cyfryngau Cymraeg a Saesneg, llais na all neb ei wrthod. Tybed, meddai: "Ai gwaed ynte inc sydd yn ei wythiennau?'

Ar ran eglwys Bethel, cawsom grynhoad o'i gyfraniad mawr i'r eglwys gan Dr. John Williams, a'i fod yn unigryw fel arweinydd ein henwad ac iddo ddal ati am 53 mlynedd heb laesu dwylo. Diolch i Dduw amdano. Ac ar ran eglwys Bethania, diolchodd Mr. John Lyons iddo am fod gyda'r eglwys mewn dathliadau hapus, ac ym mhob argyfwng, ac yn arbennig wrth ochr gwely'r claf. Mae wedi defnyddio yr holl dalentau a roddwyd iddo a'i ddylanwad yn ddi-ben-draw.

Yna, ar ran Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi rhoddwyd teyrnged iddo gan Dr. Arthur Thomas am ei holl waith oherwydd ganddo ef oedd y weledigaeth o'r cychwyn cyntaf megis gosod placiau ar fannau arbennig i gofio rhai o enwogion Cymraeg y Glannau. Dathlwyd Diwylliant y Cymry yn y flwyddyn 2008 fel rhan o ddathliad y ddinas yr holl gewri a ddaeth atom yn llenorion, cantorion a darlithwyr trwy wahoddiad Dr. Rees. Y pinacl oedd dadorchuddio cofeb y Mimosa ar Sadwrn 30 Mai 2015. Mae dylanwad y cadeirydd wedi bod yn allweddol i weithgaredd y Gymdeithas a dyma englyn a luniodd (Ddim ots am y gynghanedd, gan ymddiheuro i'r Orsedd!)

*Ar y Glannau, mae'n Gymro blaenllaw – a thu hwnt*
*Ar ei ddoniau nid oes taw,*
*Ac yn ei Jag â yma a thraw,*
*D. Ben Rees - y gŵr Di-Ben-Draw.*

Ar ran Cymdeithas Cymry Lerpwl, datganodd y llywydd Mr. Roderick Owen ein gwerthfawrogiad i waith Dr. Ben Rees yn rhoi y Cymry ar y map yn ninas Lerpwl. Roedd yn mynnu mynd â'r maen i'r wal yng ngwyneb anawsterau lu. Mae'n weinidog ac yn gyfaill gwerthfawr. Rhoddodd Roderick berswad arno i ysgrifennu'r hunangofiant gan ei fod yn meddu ar gof da wedi cadw dyddiadur ar hyd y blynyddoedd y ganrif hon ac wedi byw bywyd llawn i'r eitha. Darllenodd rannau diddorol o'r llyfr.

Cafwyd gair o werthfawrogiad gan Dr. Rees, a darllenodd yntau rai hanesion o'i lyfr oedd yn berthnasol i Lerpwl.

I derfynnu'r noson, cafwyd swper blasus yn y ganolfan a theisen ar ffurf y llyfr gyda llun ohono a'r teitl.

Diolchwn i Meinwen ei briod am drefnu hyn. Hi yw'r graig gadarn tu cefn iddo. Fyddai o byth wedi gallu cyflawni cymaint onibai am ei gofal arbennig. Diolch am gael bod yn rhan o'r lansio a boed llwyddiant ar y gwerthu. Llofnododd yr awdur 81 o gopiau cyn diwedd y noson er boddhad i'r cyhoeddwyr, Y Lolfa (Gweler adolygiad Dr. Huw Edwards, Llundain ar y cyfrol ar dudalen 11).



***Y siaradwyr: Roderick Owen, Dr. Arthur Thomas, Yr Awdur, Elwyn Evans, John P. Lyons, Dr. J. G. Williams***

## COLLI CYMRO BRWD A FFRIND DA I'R ANGOR

**Brawychwyd ni oll ar y Glannau ym marwolaeth Mr. Hywel Jones, Barnston ac un o gymwynaswyr pennaf Cymry Penbedw, ar fore Mercher, 16 Rhagfyr. Y pnawn Sul cyn hynny cawsom ei gwmni yng Nghyngerdd Undeb Gorawl Cymry Lerpwl. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'i briod a'r teulu yn y brofedigaeth sydyn. Bu yn aelod ffyddlon o Bwyllgor Gwaith yr *Angor* am flynyddoedd, ac ef a olynodd E. Goronwy Owen fel Cadeirydd. Gorffwysedd mewn hedd.**

**Golygydd**

Golygyddol

# RHYFELA A SÔN AM RYFELA –

## *gan D. Ben Rees*

Dyna fy ngofid am flwyddyn 2016, gan mae dyna ddymuniad ein cynrychiolwyr yn Senedd San Steffan ac ymhlith seneddwyr y Gorllewin. Ar Ragfyr yr ail 2015 yn Nhŷ'r Cyffredin, enillodd David Cameron y dydd gyda mwyafrif o gant wythdeg pleidlais. Diolch am y rhai dewr hynny a wrthododd ymuno â'r bwriad gwirion a chreulon o ymosod ar gartrefi pobl ddiniwed o'r awyr yng ngwlad druenus Syria. Cytunaf fod bygythiad i bawb gan ISIL. Hwy yw'r creulonaf a welodd y byd erioed, ni wn am neb sydd yn barod i dreisio ei cyd-grefyddwyr, lladd a bomio Mwslemiaid eraill, ac yn arbennig unrhyw berson sy'n arddel Cristnogaeth.

Yr wyf yn bersonol yn erbyn bomio Syria am dri rheswm. Yn gyntaf cawsom weld ers dros flwyddyn ymosodiadau awyr gan awyrenau'r Unol Daleithiau ond heb dawelu na llwyddo i ennill y dydd dros ISIL o gwbl. Yn ail y gost. Mae'n anhygoel ein bod yn torri lawr ar hanfodion i drigolion Prydain tra yn gwario swm aruthrol ar y bomiau sydd yn disgyn yn Irac a Syria. Yn drydydd dechrau mwy o frwydro yw'r bomio bondigrybwyll. Gwyddom na enillir y dydd y ffordd hon a bydd yn rhaid maes o law anfon milwyr o Brydain i Syria i dalu'r pris uchaf fel y gwnaed yn Afghanistan.

Oes gobaith? Oes. Y mae'r hyn a elwir yn Broses Fienna yn dangos fod llygedyn o obaith ar y gorwel, efallai nid yn 2016, ond o leiaf yn 2017 neu 2018. Yn Fienna gwelwyd un deg naw o wledydd wedi ei cynrychioli ac yn barod i drafod o gwmpas y bwrdd sut y gellir cael gobaith a heddwch yn Syria trwy sianelau gwleidyddol. Rhaid galw am hyn, a mawr obeithiaf y daw arweinwyr y gwledydd i sefydlu rhyw fesur o heddwch a chyfiawnder. Hyn yw cyfrifoldeb Ewrop, Rwsia, Saudi Arabia, Iran a'r Unol Daleithiau. Wylaf yn aml o flaen y set deledu wrth weld cymaint o ddioddefaint a therfysg yn y Dwyrain Canol a Syria. Gofidiaf am y Cristnogion sydd yn dioddef yn arswydus o dan law y bleiddiaid ISIS.

*Coffâd*

# Gwilym Gordon Short

**(1919-2015), Crosby**

**Yr oedd Mr. Gwilym Short yn un o Gymry mwyaf adnabyddus Crosby, Blundellsands a Waterloo ar sail ei ymroddiad fel fferyllydd yn College Road. Bu yn garedig a gofalus o'i gwsmeriaid ar hyd y blynyddoedd a throsglwyddodd gyfrifoldeb i'w fab Geraint sydd gyda'i staff yr un mor ymroddedig. Cafodd ei fendithio yn fawr gyda phersonoliaeth ddengar, gallu yn ei alwedigaeth, a chydymdeimlad a phobl yn ei hafiechydon. Yr oedd yn cadw ei hunan yn heini, ac yn ymhyfrydu yn ei gefndir a'i deulu. Bu yn gymorth mawr i mi pan oeddwn yn gynharach yn y flwyddyn yn casglu arian tuag at y Gofeb ger Doc Princes. Cafodd berswâd ar lu o bobl, rhai o'i deulu ym Mangor, Lerpwl a Sir Gaer i ymateb i Ŵyl y Mimosa, a diolchgar oeddwn.**

**Mae'n rhyfedd meddwl fod dau o Gymry mwyaf haelionus ein dinas, E. Goronwy Owen, Allerton a Gwilym Gordon Short, dau fferyllydd goleuedig, wedi ein gadael yn ystod 2015. Yr oedd y ddau yn adnabod ei gilydd yn dda gan ei bod yn aelodau yr un adeg a'i gilydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yng nghapel Cymraeg y Presbyteriaid yn Garston. Ar ôl symud i Crosby ymaelododd Gordon a'i briod Olive yng nghapel Cymaeg Waterloo. Bu y ddau yn aelodau haelionus yn eglwysi Waterloo a Bethania ac edrychai ymlaen i ymuno y blynyddoedd diwethaf hyn yng Nghinio Nadolig y Capel.**

**Ar 21 Tachwedd yn ei gartref yn College Road, Crosby yng ngofal ei deulu daeth awr yr ymadael ag yntau yn 96 mlwydd oed. Gwerthfawrogai yn fawr *Yr Angor* a byddai yn cyfeirio'n gyson at erthyglau penodol oedd wedi ei fodloni. Edrychai ymlaen i raglenni difyr ar Gymry ar y teledu a chyfrolau o'r hanes. Bu'r angladd yn Amlosgfa Thornton yng ngofal ffrind y teulu y Parchedig Margaret Quayle gyda Gwasanaeth o ddiolchgarwch yn dilyn yn Eglwys Anglicanaidd St. Luke's, Crosby. Cydymdeimlwn â'i fab Geraint a'r holl deulu yn y brofedigaeth.**

**D. Ben Rees**

## Cinio Gŵyl Ddewi Cymry Lerpwl

**ar nos Sadwrn, 27 Chwefror 2016**
**yng Nghlwb Golff Woolton am 7.30 o'r gloch**



Gŵr gwadd: **Mr. Winston Roddick, QC, Caernarfon**
(Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru)
Llywydd: **Dr. D. Ben Rees**
*Y mae'r tocynnau £25 ar werth gan aelodau Cymdeithas Lenyddol Bethel a Chymdeithas y Cymry neu trwy benatgarthdrive@talktalk.net*
*Croeso i bawb*

# CORNEL Y TRYSORYDD



## Chwefror 2016

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Huw Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Mr a Mrs Geraint Roberts, Rhuthun | £20.00 |
| Mrs Efrys Hughes, Brynteg | £15.00 |
| Mrs Mary C. Evans, Nefyn | £20.00 |
| Mrs Margaret Anwyl Williams, Mossley Hill | £25.00 |
| Mrs Nan Hughes Parry, Woolton | £25.00 |
| Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree | £30.00 |
| Dr a Mrs Arthur Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| Ms Rachel Gooding, Toxteth | £11.00 |
| Mrs M Williams, Bae Cemaes | £12.00 |
| Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan | £25.00 |
| Mrs Eirwen Sargent, Penbedw | £25.00 |
| Mrs Gaenor Gregory. Bromborogh | £22.00 |
| Mrs Gwen Jones, Allerton | £25.00 |
| Mr a Mrs Sam Prowting, Wavertree | £25.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llangadfan | £20.00 |
| Mr Hywel Roberts, Caernarfon | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£365.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# SIAN PARI HUWS – 2.9.60 - 29.11.15

Yn Llanelwy y cafodd Sian ei geni, ar yr 2il o Fedi 1960, yn ail blentyn i Eira a'r diweddar Gapten Gwyn Pari Huws o Hen Golwyn. Yn 1960, roedd Gwyn i ffwrdd ar y môr yn gyson fel Prif Swyddog hefo cwmni llongau Elder Dempster. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach symudodd y teulu – Sian a'i rhieni, a'i brawd hŷn, Alun – i Gilgwri, fel y basa cyflwynwyr radio yn 'i ddeud – y Wirral i bawb arall! A hyn wedi i'w thad dderbyn swydd hefo'r cwmni yn Lerpwl.

Buan y daeth y teulu'n rhan o gymdeithas Gymraeg yr ardal – yn aelodau o Gapel Annibynwyr Clifton Road, lle roedd Eira yn canu'r organ yn rheolaidd a Gwyn yn dod yn drysorydd y capel. Roedd y ddau yn weithgar hefo Cymdeithas Gymraeg Penbedw, a phwy a ŵyr nad oedd gwaith Eira yn rhan o'r pwyllgor nath sefydlu papur bro Glannau Mersi, 'Yr Angor', yn arwydd cynnar o'r llwybr y byddai Sian yn ei ddilyn yn ystod ei gyrfa.

Aeth Sian i Ysgol Ramadeg y Merched yng Nghilgwri –, ond 'da ni yn sôn am ddyddia'r 11+ cofiwch! Ac yn yr ysgol y datblygodd ei diddordeb mewn chwaraeon a cherddoriaeth – oedd ddim yn syndod o gofio cefndir cerddorol y teulu. Ac yn sicr mi fyddai'r diddordeb mewn cerddoriaeth yn amlygu 'i hun yn ei gwaith mewn blynyddoedd i ddod.

Ac o ran y chwaraeon, roedd gweld hen ffon lacrosse Sian o'i phlentyndod yn cael lle amlwg o hyd yn y porch yn ei chartre yn codi gwên ar wynebau'i brodyr.

Yn y cyfnod yma, mi fyddai'r teulu'n treulio'r rhan fwyaf o'u gwylie yng Ngogledd Cymru, ac am sawl blwyddyn, yn benodol yng Nghemaes, yma ar Ynys Môn, lle roedd 'na ddigon o gyfle i chware mewn cychod, nofio, cerdded a gneud ffrindiau - y cyfan yn Gymraeg. Mi fyddai'r teulu'n cael croeso mawr gan y trigolion lleol gan fod cael teulu o Gymry Cymraeg yn dod i Gemaes ar wyliau yn beth eitha anarferol!



A fiw i mi anghofio deud fan hyn hefyd – jest for the record, fel ma newyddiadurwyr, a phlismyn, yn hoff o ddeud! – bod Sian yn falch iawn o'r penfras – ne'r cod – pum pwys y gnath hi ddal o gwch Llew Jones – capten llong wedi ymddeol oedd yn ffrind i'w rhieni.

Roedd gan Sian wastad ddiddordeb mawr yn hanes ei theulu. Roedd Gwilym, ei thaid ar ochr ei thad, yn feddyg teulu uchel ei barch yn Hen Golwyn ac yn gyfranwr achlysurol ar y radio ar faterion y dydd a byd natur – awgrym arall efallai bod darlledu yn y gwaed.

Roedd ei hen daid, William Pari Huws, yn weinidog amlwg gyda'r Annibynwyr yn Nolgellau am ddeng mlynedd ar hugain. Roedd o'n emynydd ..... a fo sgwenodd yr emyn cynta a ganwyd yn yr yr arwyl sef Arglwydd Iesu. Cydymdeimlwn yn fawr a'r teulu ei phartner Geraint Anwyl, ei mam, y ddau frawd a'r teuluoedd. *(Diolchwn am gael defnyddio y rhan gyntaf o'r Gwerthfawrogiad - Gol.)*.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**<u>Prif Swyddfa</u>**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**<u>Swyddfa arall</u>**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Llawenydd oedd gweld Miss Dorothy Williams a Mrs Menna Edwards, Blundellsands yn ein Cinio Nadolig a diolchwn i Mrs Phyllis Weaver a Mrs Jennifer Cunningham am ei cludo i westy y Royal. Mae'r ddwy wedi dioddef cryn wendid ond yn dal yr un mor obeithiol. Cawsom fwyd da ac oriau o gwmniaeth ddifyr, a diolch i Jim a Elin Boyd am ofalu am y trefniadau. Cafwyd geiriau pwrpasol gan y Gweinidog a Mr. John P. Lyons. Soniodd ef yn yr oedfa ar Sul, 13 Rhagfyr ei fod wedi darllen y rhan helaethaf o'r gyfrol *Di-Ben-Draw*, sef hunangofiant y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Dywedodd yn *Y Ddolen* (Rhif 68):

'Rwyf wedi darllen y rhan helaethaf ohono ac y mae yn hanesyddol, ysbrydoledig a difyr – yn wir yn werth cael gafael arno. Mae yn datgelu ehangder ei ddiddordebau a'i brofiad a chymaint y mae wedi ei rannu i bob un ohonom'.

Mae trefniant ar y gweill i gynnal astudiaeth Feiblaidd yn y Grawys a daw'r manylion yn fuan i'r aelodau. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr Eglwys ar fore Sul, 15 Tachwedd a chadarnhawyd fod yr achos Presbyteraidd Cymraeg i barhau. Penderfynwyd rhoddi cyfle i fynd i Wasanaeth Cofio Arwyr y Rhyfel wrth Gofeb y Pump Lamp, ac yn 2016 cynhelir oedfa Bethania am 2.30 y pnawn pryd y disgwylir y Parchg. Robert Parry, Wrecsam.

Rhannwyd ein Offrwm Diolch, gyda cyfraniadau i Gymdeithas Alzheimers ac at lety ar gyfer rhieni yn Ysbyty'r Plant Alder Hey. Eisioes trosglwyddwyd £25 at Apêl Ysbyty Shillong.

Mae Miss Glenys Jones newydd symud o Gartref yr Henoed, Brooklands, Stoneycroft i Gartref Church View Care Home, Green Lane, Lerpwl L13 7EB. Bu'r Gweinidog a John a Marian Lyons yn ei gweld yn y cartref newydd. Meddyliwn amdani a hithau bellach dros ei naw deg oed. Gweddiwn yn ddyddiol drosti.

Llawenhawn yn y bartneriaeth dda sydd rhwng ein Gweinidog a'r Parchedig Gregor Cuff, Offeiriad Eglwys Crist. Dau o weision yr Arglwydd yn y gymdeithas gyfoes. Mawr yw'r angen amdanynt.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu misoedd Tachwedd a Rhagfyr yn fwrlwm o ddigwyddiadau diddorol a chyffrous. Mae'n anodd credu fod i gymaint o weithgareddau gymryd lle mewn un cymuned ag eglwys Gymraeg.

**Nos Lun Tachwedd 2** o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol cafwyd noson eithriadol o ddifyr ar y teitl "Mae yn fy meddiant", hynny yng nghwmni tair chwaer, Carys Jones, Elan Jones a Norma Lloyd Owen a Wena Evans yn llywio'r noson. Cafodd Elan ei hyfforddi yn nyrs yn Buenos Aires, Cwrs o dair blynedd a phinacl hynny oedd y seremoni o dderbyn y cyfrifoldeb. Dangosodd i ni luniau o'i chyd-fyfyrwyr a phob un yn derbyn lamp a'r matron ei hun yn goleuo pob cannwyll. Lamp bren oedd hon o ogledd ddwyrain Ariannin, ac yn debyg iawn a'n hatgoffa o lamp Florence Nightingale. Goleuni yn dangos cymorth a gobaith.

I ddathlu penblwydd arbennig Roderick Owen trefnodd Norma yn ddi-arwybod iddo i hedfan ar Concorde i Efrog Newydd. Fu erioed gymaint o foethusrwydd. Dangosodd i ni y fwydlen gyda danteithion amheuthun a'r gwinoedd yn llifo fel yr afon. Roedd Roderick ar ben ei ddigon gan fod ganddo ddiddordeb mawr mewn hedfan. Wedi glanio, nid chwilio am dacsi wnaeth Norma, roedd yn rhaid cario mlaen y steil i'r eithaf, ond limousine. Roedd yn rhaid dod i lawr i'n byd bach ni ar y ffordd adref, sef *Economy Class*, dosbarth y werin!


Cyfeiriodd Carys at dair eitem a ddaeth i'w meddiant ugain mlynedd yn ôl. Yn gyntaf, llythyr wedi ei ysgrifennu yn 1837 gan John Elias ac wedi ei anfon i'r Parchedig William Roberts, Amlwch. Erbyn hyn mae'r llythyr yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ei hail a'i thyrydedd eitem oedd llyfr a llun. Pan oedd ei mam yn ifanc bu yn byw hefo cwpl yn y Felinheli, sef y Parch Edward Griffith a'i wraig, hi yn defnyddio'r enw Mair Ogwen; a hi oedd awdur y llyfr a gyhoeddwyd yn 1925 yn sôn am chwiorydd enwog y Cyfundeb. Y llun oedd o'i gŵr ac erbyn hyn maent yn meddiant merch sydd â chysylltiadau teuluol ag ef.

**Ar nos Lun, Tachwedd 16** o dan y Gymdeithas Lenyddol cafwyd noson i ddangos "Lluniau'r *Angor*" o'r nawdegau. *Yr Angor* cyntaf i ymddangos oedd ym Mehefin 1979, a'r pennawd oedd 'Dydd y Cymry'. Ein gweinidog yw Golygydd yr *Angor* i'r cychwyn cyntaf ac ef oedd llywydd y noson hon hefyd. Roedd yn braf cael edrych yn ôl a dwyn atgofion, a rhai cyfeillion wedi ein gadael erbyn hyn. Yn 1993 daeth Manceinion yn rhan o'r Angor a dwyn y Cymry yn y ddwy ddinas yn nes at ei gilydd. Cawsom wers gan Dr. John yn egluro technoleg y broses o dynnu llun a mantais y camera digidol. Mae lluniau lliw erbyn hyn yn atyniadol iawn yn y papur bro.

Mae'r lluniau yn gofnod o'n hanes, yn croniclo holl ddathliadau ar hyd y blynyddoedd yn ein plith. Gwerthfawrogwn waith y pwyllgor yn rhoi ar gof a chadw ein hetifeddiaeth; ac nid ni yn unig ond gweld lluniau o aelodau capeli Stanley Road, Waterloo, Runcorn, Ellesmere Port ac Oaker Avenue, Manceinion. Ceir hanes Cyfarfod y Lansio o gyfrol ddifyr ein Gweinidog yn y rhifyn hwn ac felly diolchwn am y ddarpariaeth ar 23 Tachwedd.

Cyfarfod eto o'r Gymdeithas Lenyddol ar Nos Lun, Tachwedd 30ain: *Pawb a'i Farn*. Yr holwr oedd Dr. D. Ben Rees ac ar y panel cafwyd Sara Williams, Mr. Eryl Wyn Jones a Mr. Roderick Owen. Daeth amryw o gwestiynau i law yr holwr ac yn naturiol y cwestiwn llosg cyntaf oedd "A ddylai Prydain fomio Syria?" Doedd yr un o'r panel am i hyn ddigwydd, gan mai y diniwed fyddai yn cael eu lladd fel yr hyn a ddigwyddodd yn ninas Paris. Chaiff bomio ddim gwared â'r ISIS. Yr ail gwestiwn oedd – Gan fod 30 y cant o broblemau yn deillio o ddiffyg cwsg sut mae goresgyn hyn? Cafwyd awgrymiadau diddorol gan y Panel.

Cwestiwn amserol iawn oedd y nesaf. "Beth ddylid ei wneud gan y cenhedloedd i arbed newid yn yr hinsawdd?" Cafwyd llawer o awgrymiadau a'r pwyslais ar i'r gwledydd gyd-weithio gyda'i gilydd a gwynebu cyfrifoldeb ac mae'r pethau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth.



*Panel y Seiat Holi – yr Holwr, Sara Williams, Eryl Wynne Jones a Roderick Owen*

Y cwestiwn dilynol oedd “A ddylai 1,600 o ffoaduriaid gael croeso yn y mannau hardd o Gymru, i ble y dylid eu hanfon?” Y farn gyffredinol oedd eu hanfon i drefi a dinasoedd ac nid i gefn gwlad. Y cwestiwn olaf oedd “Pwy fuasech yn ei wahodd i swper a’r dewis o anrheg penblwydd delfrydol? Eryl Wyn Jones yn dweud Lewis Valentine – mi fyddai yn hoffi gwybod mwy amdano gan ei fod yn perthyn iddo, yr anrheg – platiad o sgons. Dymuniad Roderick fyddai cael sgwrs hefo’r Esgob Desmond Tutu a’r anrheg delfrydol fyddai cael platiad o sgons! Hilary Clinton fyddai gwestai Sara gan ei bod yn gymeriad cryf ac ymdrechgar a’i dymuniad am anrheg penbwydd delfrydol fyddai crwydro o amgylch y byd.

Cafwyd noson ddiddorol, atebion da, gonest a gwreiddiol gan y panel a’r holwr yn ymateb pan oedd angen.

Nos Lun, Rhagfyr 7 cyflwyniad power point gan ein gweinidog ar Apêl Llywydd y Gymdeithasfa, y Parchedig Trefor Lewis tuag at godi arian i adnewyddu Ysbyty Shillong. Olrheiniodd hanes cynnar y Genhadaeth Dramor yn Lerpwl a Phrydain a’r rhan allweddol wnaethpwyd gan Gymry Lerpwl. Yma roedd y pwerdy gyda’r ysbrydoliaeth a’r arian. Un o Gymry Lerpwl oedd y Parchedig Ddr. Hugh Gordon Roberts a wnaeth waith clodwiw ac arbrofol ac mae’r ysbyty wedi ei galw ar ei ôl. Yr un a’i dilynodd oedd Dr. R. Arthur Hughes, yntau â chysylltiad â Lerpwl a’r cyntaf o’r cenhadon meddygol heb ei ordeinio. Gwyddom oll am ei waith di-flino yntau yn yr ysbyty a bu ei gyfraniad i’n heglwys ni ar ôl ei ymddeoliad yn 1969 hyd 1996 yn werthfawr dros ben.

Mi fydd ein hymateb i apêl yr ysbyty yn gymeradwy a chawn gyfle i roi ein cyfraniad. Diolchwn i Dr. Rees a Dr. John Williams am wneud y noson yn bosibl

Cafwyd amryw o ddathliadau’r Nadolig ym mis Rhagfyr. Noson “Ar Drothwy’r Nadolig” gan Nan Hughes-Parry a lluniaeth yn dilyn. Cafwyd oedfa arbennig bore Sul yr 20fed o dan ofal ein gweinidog, gyda chyfraniad arbennig gan Ifor, Anne a Margaret a chantorion Bethel. Cyfle yn dilyn i gymdeithasu yn y ganolfan dros fwydydd Nadoligaidd blasus.

Yna, fore’r Nadolig oedfa arbennig wedi ei threfnu gan Dr. Pat Williams a Dr. John Williams gyda llawer o’n haelodau yn cymryd rhan.

Ar ddiwedd blwyddyn 2015 diolchwn am yr holl fendithion a ddaeth i’n rhan a dymunwn Flwyddyn Newydd Dda yn 2016 i’n haelodau oll a charedigion yr Eglwys sydd mor barod i’n cefnogi.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Mae’r Dr. Goronwy Wynne, Licswm yn gyfaill arbennig i’n cymdeithas, bob amser yn barod iawn i dod atom a phob amser gyda darlith athrylithgar, gafaelgar. Ni’m siomwyd ni wrth wrando ar hanes Charles Darwin a’i gyfraniad unigryw i wyddoniaeth a’n dealltwriaeth o rhywogaeth.

Clywsom hefyd am ei gysylltiadiau â Chymru, ac am adwaith Cymru Fethodistiaeth at ei theori. Ganwyd Darwin, ar ffin Cymru, yn Amwythig yn 1809 lle roedd ei dad yn feddyg teulu ac yn ŵr dylanwadol yn y dref.

O’i blentyndod, natur ym mhob agwedd oedd ei ddifyrrwch pennaf – hel planhigion, pryfaid, chwilod, creigiau, unrhyw beth byw. Gobaith ei dad oedd iddo ddilyn yn ei lwybrau fel meddyg, ond pan wrthododd wneud hyn, gyrrwyd ef i Gaergrawnt i astudio diwinyddiaeth, yn erbyn ei ewyllys. Ond tra yno, cyfarfu ag athro botaneg a diwinyddiaeth oedd yn chwilio am naturiaethwr i ymuno â llong i hwylio o gwmpas y byd am dair blynedd. Roedd Charles ond yn ugain oed, a’i dad yn gwrthwynebu’r syniad yn arw, ond trwy gefnogaeth ei ewythr, Josiah Wedgewood cafodd ganiatâd i ymuno â’r ymgyrch – ar y *Beagle* – “and the rest is history.”

Hwyliodd, i arfordir de America, ac yn Tierra del Fuego, a’r Galapagos, cafodd weledigaeth ac ysbrydoliaeth am y byd naturiol drwy gasglu’n helaeth, astudio’n fanwl, a meddwl yn ddwfn. Anfonodd ei ddamcaniaethau a’i syniadau i’r swyddfa yn Llundain lle daethant i sylw naturiaethwr o fri fel Alfred Russell Wallace, oedd yn dilyn yr un ymchwil yn Malaya. Syfrdanwyd y gŵr hwn o ddeall bod un arall yn dilyn yr un trywydd.

Dylanwad arall ar Darwin oedd llyfr gan naturiaethwr mwyaf ei ddydd Thomas Pennant o Chwitffordd, Sir Fflint. Gyrrwyd llyfr Pennant, “Mammaliaid y Byd”, i Darwin ar ei daith a gwelodd fod sylwadau Pennant yn cystylltu’r â’r cwestiwn oedd yn ei feddiannu, sef “Pam mae creaduriaid a planhigion a phob peth byw yn datblygu mor wahanol i’w gilydd ac eto yn debyg”.

Wedi pum mlynedd ar y *Beagle*, daeth i fyw i Croydon, gyda’r wraig, merch Josiah Wedgewood, i dreulio gweddill ei oes yn dehongli ei ddarganfyddiadau ac yn eu ysgrifennu. Uchatbwynt ei ymchwil wrth gwrs oedd cyhoeddi’r llyfr chwyldroadol “*On the origin of Species*” yn 1859, ac eto yn 1872. Cyflwynodd y llyfr hwn, y theori gwyddonol fod poblogaeth yn datblygu dros genedlaethau drwy broses o ddetholiad naturiol. ‘Roedd effaith y llyfr yn ysgubol ymysg ysgolheigion, eglwyswyr a’r werin gyffredin ond mae bellach wedi cael y parch sy’n ddyledus i wyddonydd dysgedig, meddylgar, unplyg.

Parhaodd Darwin yn fonheddig at ei wrthwynebwyr, gyda pharch at eraill oedd yn credu’n wahanol, ac ni wadodd fodolaeth Creawdwr y bydysawd.

Bu Darwin yng Nghymru sawl gwaith – cyfeiriodd yn ei sylwadau at Eryri, Bodnant, Moel Siabod, Llanrhaedr, Conwy, a dotiodd at Cwm Idwal – ac effaith yr oes ia ar ffurf y cwm. Ar ei ail daith meddai, “Why did I not see the glory of Cwm Idwal ?” Engraifft bychan, ond cyfraniad arall at weledigaeth y gŵr arbennig hwn.

Gwnaed y diolchiadau gan Hywel Jones, Terry oedd yn cyfeilio, a Glenys yn llywyddu.

Y Parch Robert Parry oedd ein gwestai ar nos Lun Tachwedd 23ain gyda’i ddarlith “Testunau diarffordd o’r Beibl”. Mab fferm o Morfa Rhuddlan yw Robert, wedi ei addysgu yng ngholeg diwinyddol Aberystwyth ac ennill gradd Mus Bac ym Mangor. Bu’n weinidog ar amryw o eglwysi Cymraeg yn Lloegr, ond bellach mae a gofal Capel y Groes, Wrecsam, a John St., Caer.

Er golygon y byd modern, credai’r Parch R. Parry bod y grefft o bregethu yma i aros a bod gwaith bugeilio yn ddi-ddiwedd. Diddorol oedd clywed am dad Martin Luther King yn pregethu am bymtheg awr mewn un cyfarfod! Clywsom ychydig am y gwaith astudio, meddwl a gweddïo sydd tu ôl i bregeth dda a chofiadwy. Mae testun gafaelgar yn hanfodol – ambell dro fe ddaw pregeth o flaen testun os bydd digwyddiad arbennig wedi ysbrydoli neges. Cawsom engreifftiau o destunau sydd tu cefn i emynau – fel yn “pwy sy’n dwyn y brenin adref”, a’r “bwystfilod rheibus”. Mae enghreifftiau o destunau digon od – anodd deall sut bregethau a ddilynodd: adnodau fel “milgi cryf yn ei feingefn” neu, “Ephraim sydd fel teisen heb ei throi”, “ar bachgen a disiodd hyd yn seithwaith”. Felly cymysgedd o’r ysgafn a’r ysbrydol a glywsom gan y Parch Robert Parry ar bwnc sy’n annwyl ganddo ac yn ysbrydoli ei ddawn yn y grefft o bregethu.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Eira Hughes, Terry oedd yn cyfeilio, a’r Parchedig Glenys Wilkinson yn llywyddu.

“Goleuni” oedd thema ein cyfarfod Nadolig ar Rhagfyr 7fed. Yn nwylaw profiadol y Parch Glenys Wilkinson, cawsom noson hyfryd o ddarlleniadau a charolau wedi eu cysylltu gan fyfyrdodau Glenys ar oleuni o bob math. Gwelsom olau canwyll, llusern a thrydan, y cyfan yn symbol o’r goleuni a ddaeth i’r byd ar y Nadolig cyntaf. Drwy ddarlleniadau o lyfrau Genesis ac Eseia, ac efengyl Ioan, datguddiwyd cynllun Duw yn ei addewid o Geidwad a ddaeth yn “oleuni’r byd” Gyda charolau a darlleniadau llenyddol ac ysgrythurol, cymerwyd rhan gan nifer o aelodau, yn eu mysg datganiad hyfryd o “Dawel Nos” gan Anne Montgomery.

Gwnaed y diolchiadau gan Ann Cooke, Terry oedd ein cyfeilydd, a’r pwyllgor oedd yn gyfrifol am ddanteithion tymhorol. Hyfryd oedd gweld Megan Roberts a Gwyneth Ellis hefo ni, wedi absenoldeb – y ddwy mewn hwyliau da ac yn teimlo llawer iawn gwell.

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Ar ddechrau Tachwedd cafwyd noson yng nghwmni y Parch. Huw John Hughes yn sôn am Goleg y Werin sef dechreuad yr Ysgolion Sul yng Nghymru. Cyn yr Ysgolion Sul roedd sefyllfa addysg yng Nghymru yn wael gyda oedolion a phlant yn anllythrenog. Sefydlwyd ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror oddeutu 1731. Roedd yr ysgolion yn symud ymlaen o un ardal i'r llall ac yn aros mewn un lle am tua tri mis. Cynhelid yr Ysgolion Sul yn y gaeaf pan oedd llai o waith i'w wneud ar y ffermydd. Roedd yr ysgolion yma yn dibynnu ar yr offeiriaid lleol a rhaid oedd hyfforddi plant yng Nghymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddynt yn dysgu darllen y Beibl a'r holwyddoreg. Wedyn bu Thomas Charles o'r Bala yn sylfaen cadarn i gyfundrefn yr Ysgolion Sul. Ganwyd Thomas Charles yn Sir Gaerfyrddin. Aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen wedi iddo glywed  Daniel Rowlands yn pregethu. Daeth o dan dylanwad y mudiad efengylaidd. Yn 1770 cafodd ei ordeinio yn offeiriad a dechrau ar ei weinidogaeth yng Ngwlad yr haf. Nid oedd yn hapus yno. Aeth i'r  Bala gyda'i gyfaill Simon Lloyd yn 1777 ble y cyfarfu a Sali a syrthio mewn cariad â hi. Fe briododd y ddau. Cafodd ei wrthod am nifer o swyddi i fod yn offeiriad gan yr Eglwys ond yn 1784 ymunodd a'r Seiat yn y Bala. Dechreuodd ar ei ymdrech i wareiddio Cymru trwy adfywio gwaith Griffith Jones gan dilyn gwaith Robert Raikes yn Lloegr. Roedd yn anodd cael ysgolion Sul yng Ngogledd Cymru am fod y tir mor fynyddig a garw. Cyfarfu Thomas Charles a Thomas Jones o Ddinbych ac yn 1789 dechreuodd yr Ysgolion Sul. Nôd Ysgolion Sul Thomas Charles oedd achub enaid y plant, eu dysgu i ddarllen a'u dysgu am egwyddorion y Beibl.Dyn addfwyn a rhadlon oedd Thomas Charles ac roedd yn medru denu pobl ato. 'Roedd yr Ysgolion Sul i blant ac oedolion. Yr oedd yn ddiddorol cael clywed hanes yr Ysgol Sul, sydd wedi bod mor bwysig ym mywyd llawer ohonom.

Yr wythnos ganlynol cafwyd noson yng nghwmni yr arlunydd Frank Green. Un o ardal Walton yn Lerpwl yw Frank ond wedi cyfarfod ei wraig Meryl ar ddechrau y saithdegau penderfynodd ddysgu Cymraeg. Gwnaeth hyn trwy wrando ar dapiau a baratowyd i ddysgwyr gan y BBC. Erbyn hyn mae yn rhannu ei amser rhwng ei gartref yn Pontrhug, Caernarfon a'i siop yn Oakfield Road, Anfield. Aeth i Goleg Celf yn Lerpwl yn 17 oed a chawsom hanes ei yrfa drwy ei luniau. Cawsom wybod am ei hoff arlunwyr, ddoe a heddiw. Gwelsom luniau o'r Eidal, Llydaw, Cymru a Lerpwl. Trwy ei luniau mae Frank Green wedi




*Frank Green*

cofnodi hanes strydoedd ac ardaloedd o Lerpwl sydd wedi diflannu erbyn hyn, a da o beth fod y lluniau ar gael i'n hatgoffa o'r llefydd yma. Nid rhyfedd oedd gweld ei lyfr yn gwerthu yn dda.

Y nos Fawrth wedyn cawsom noson wahanol yng nghwmni Iola Edwards a Beryl Van Beck. Mae'r ddwy yn aelodau o Gymdeithas Cymry Penbedw. Rhannwyd y noson yn ddwy ran. Yn y rhan gyntaf roedd y ddwy yn son am eu 'Taid' ac fel y bu cysylltiad rhwng y ddau daid. Roedd Griffith Thomas, sef  taid Iola  yn ffermwr yn Golftyn yn ymyl Cei Connah. Roedd yn



*Beryl Van Beck a Iola Edwards, Roderick a'r tystysgrif*

briod ag Annie ac  'roedd ganddynt ddau o blant. Roedd David Hughes yn daid i Beryl ac yn byw yn Cei Connah. Roedd yn bobydd ac yn cadw siop groser. Cawsom  hanes y ddau daid a gwelsom luniau ohonynt. Roedd y ddau yn mynd i Gapel Salem, Cei Connah a phan oedd David Hughes yn gadael y capel, lle y bu yn flaenor am 22 mlynedd i fynd i fyw i Brestatyn, cyflwynwyd iddo dystysgrif hardd wedi ei fframio a'i llofnodi gan rai o'r capel. Roedd Griffith Thomas yn un o'r llofnodwyr a dyna y cysylltiad rhwng y ddau daid ! Yn yr ail ran bu Iola yn sôn am Gei Connah. Cawsom hanes y lle a hanes y porthladd ac am rai o'r llongau a adeiladwyd yno. Hefyd  bu'n sôn am rai o enwogion y dref yn cynnwys T.G. (Tommy) Jones pêl droediwr i dîm Everton a enillodd amryw o gapiau am chwarae dros Cymru ac Emlyn Williams yr awdur, dramodydd ac actor. Noson ddiddorol.

Er fod nos Fawrth olaf  Tachwedd yn noson wlyb iawn cafwyd criw da i'r cwis blynyddol o dan ofal Devida. Unwaith eto y tîm buddugol oedd tîm y Parch. Ddr. D. Ben Rees. Diolch i Devida am ei holl waith yn paratoi y cwestiynau.



*Devida Broadbent, Roby*

Ym mis Rhagfyr mwynhawyd  cinio Nadolig ar y nos Fawrth gyntaf yng ngwesty'r Alicia ym Mharc Sefton. Cafwyd noson bleserus a diolch i Norma a Devida am drefnu y cyfan. Y nos Fawrth ganlynol cafwyd noson 'Naws y Nadolig' yng nghartref Wena a Tim Evans. Cafwyd cyfle i sgwrsio a mwynhawyd y bwyd Nadoligaidd a baratowyd ar ein cyfer. Cyn mynd cawsom gyfle i ganu carolau. Gwnaethpwyd casgliad ar y noson tuag at Apêl Ysbyty Shillong.

Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr 'Yr Angor'.



*Tîm Cyntaf: R. Ifor Griffith, John G. Williams, C. Davies, Brian Thomas, Alun Davies a D. Ben Rees*



*Yn ail: Kathy Norton, Beryl Williams, Dr. Pat Williams, M. Anwyl Williams, Anne M. Jones, Louie Jones*



*Yn drydydd: Hilda Thomas, Carys Jones, Mair Jones, Norma a Roderick Owen ac Elan Jones*





*(chwith: Yn y Cinio Nadolig)*

*Parti Nadolig y Cymry yng nghartref Wena a Tim*

Myfyrdod

# Athroniaeth 2016

gan Elwyn Parry

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd ac wrth gyfarch ein gilydd erys y ffaith nad ydym yn byw fesul blwyddyn ond fesul diwrnod. "Un cam sy digon im" medda Syr John Morris-Jones wrth gyfieithu Newman "one step enough for me".

Pan un tro yn aros gydag Anti Laura yn Nyffryn Ardudwy dros y flwyddyn newydd euthum i gyfarfod y Gymdeithas Lenyddol i wrando ar atgofion hen was ffarm annwyl iawn ei barch yn yr ardal. Sipsiwn oedd y teulu ac wedi dod i'r ardal ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf o Lydaw. Dyma hanes y tro olaf i Elis siarad â'i daid.

'Wyddost ti rydw i wastad wedi ceisio byw un dydd ar y tro. I mi mae yna ddau ddiwrnod yn yr wythnos sydd yn aur. Ni fyddaf yn poeni yn eu cylch o gwbl, dau ddiwrnod di-ofal, di-hid yn rhydd o bob ofn a phryder. Un o rhain ydy DDOE. Wrth edrych yn ôl ar yr hen flwyddyn beth welem? Yr hen ofalon a pryder; poen, camgymeriadau; beiau ac nid oes modd tynnu'n ôl geiriau croes neu weithred. Roedd, wedi'r cyfan, y rhain i gyd yn nwylo'r Goruchaf OND wedyn roedd yn wir ddyddiau ac achlysyron teg, tawel yn bydymu ag arogl peraroglau yn llawn prydferthwch wedi mynd – GONE y fi oedd pia hwy ond rwan Duw a'u pia.

A'r diwrnod arall ydy YFORY Beth am yfory? Efallai, byddwn yn onest, y posibilrwydd o ofnau a chamgymeriadau ac ni wyddom dim beth a ddaw a dim modd cael meistrolaeth yr un fath a'i chwaer DDOE. Duw pia'r diwrnod. Fe wyddom i sicrwydd fe gwyd yr haul yn ogoneddus. Tan hynny yr Un Cariad ac Amynedd a ddeil DDOE a ddeil YFORY. Ie dydd Duw ond mi fydd yn rhodd.

'Wel, Elis bach, dim ond un dydd sydd ar ôl sef HEDDYW'

Ac yma yn yr hanes medd Elis fe dorrodd Taid i lawr a dechrau crïo. Fy mai mawr ydy fy mod pan rydw i'n dod naill ai yn fwriadol neu'n bwrpasol y ddau faich o fesurau eithafol DDOE AC YFORY i mewn i'm bywyd bob dydd. Dim ond y Duw Anfeidrol sy'n medru cynnal rhain. Y peth sy'n gwallgofi DYN ydy y pethau a ddigwyddodd DDOE a wnaiff amlygu eu hunain YFORY. Gwell gadael nhw – dyddiau Duw ydynt.

Gorffennaf gydag hanesyn Parch R. O. G. Williams ar y Wyddfa i fynd i gopa'r Wyddfa mae yna o leiaf 4 llwybr – Nant Gwynant a Llwybr Watkin, Rhyd-ddu neu'r lein bach. Roedd Robin ar ben carnedd yn gwylio pobl yn dod o bob cyfeiriad. Fe welodd gyfaill a gwaeddodd "Sut ddoist ti?" Yr ateb gafodd oedd "Fesul cam, fachgen". Felly yn union y bydd ar hyd llwybrau y flwyddyn hon. Digon i'r diwrnod. Bendith arnoch ddarllenwyr *Yr Angor.*

***Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain***

CYFARFOD I LAWNSIO

Cyfrol Saesneg ar

***Hanes Dr. H. Gordon Roberts,***

***Healer of Shillong***

***sylfaenydd Ysbyty Genhadol Gymreig***

**ar bnawn Llun, 22 Chwefror, 2016**
**am 1.30 o'r gloch y pnawn**
**yng nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl.**

<u>*Llywydd:*</u>
John P. Lyons, Bethania, Waterloo.

Bydd Arweinwyr yr enwad yn bresennol a gwerthir y gyfrol am £10 a bydd pob ceiniog yn mynd i Apêl bresennol Ysbyty Shillong.
Croeso i bawb. Darperir lluniaeth ar derfyn y cyfarfod.

***Darn o Hunangofiant Brian Thomas***

# FY NGYRFA FEL ATHRO YN LERPWL

## Pennod 5
## Olive Mount and Rathbone Hospital Schools

*Prifathro Mr. W. Arrowsmith-Roberts, Y.H.* – Pan gyrhaeddom y safle ar y diwrnod cyntaf, 'roedd y croeso a gawsom gan benaethiaid yr ysbyty yn un oeraidd iawn. *"So you've come here to teach them to read, have you? Well, we'll be interested to see how you get on."* Nid oedd yr un teclyn ar ein cyfer, cawsom un Ward wag, a her i greu ysgol. Cawsom y dodrefn oeddem ei eisiau o stordy yr Adran Addysg, ac ychydig o gadeiriau, o ddim byd arall, ond catalogiau, a rhaniad o arian prin i yrru am beth oedd arnom ei eisiau. Dewisom dîm o athrawon, a chyn-orthwywyr gofal. A dyna ni, yn sefydlu ysgol newydd. Y dasg wedyn oedd gwahanu y plant a allai ddod i'r ysgol, rhai yn gallu cerdded, ac eraill yn cael eu gwthio yn eu cadeiriau olwyn, a rhai eraill yn cael reid mewn bws bach yn nwylo un o'r porters. Wedyn 'roedd yna blant na allem eu symud. 'Roeddynt yn eu gwlâu ar y Ward ac yn methu cael eu symud o achos eu cyflwr bregus. 'Roedd gennym bedair Ward yn Ysbyty Olive Mount a thair yn Ysbyty Rathbone ac felly 'roedd yn rhaid sefydlu Dosbarth ysgol ar gyfer pob Ward. Honno oedd y gwaith anoddaf. 'Roeddynt mewn gwlâu taclus a'r llawr yn cael ei sgieinio dair gwaith y dydd.

Meddyliwch am athrawon yn dod i'w gwaith bob dydd ac yn ysgogi'r plant i chwarae a thywod a dŵr, a phob math o ganu a thwrw yn dilyn. 'Roedd hi'n rhyfel gartrefol yn gyson, ac 'roedd yn rhaid cael cyfarfodydd yn aml i ddod a'r ddwy ochr at eu gilydd. 'Roedd yn rhaid inni gyd weithio, a thrwy ail ystyried ystyr addysg, a gwerthfawrogi beth oedd gan y ddwy ochr i gynnyg i'w gilydd, daeth pethau yn araf bach, ie yn araf iawn, yn well. 'Roedd y gwaith yn Ward "C" yn dod yn well o ddydd i ddydd .'Roedd y gwaith gyda'r plant symudol yn haws. 'Roedd yn rhaid inni gael Nyrs brofiadol ym mhob dosbarth ar y dechrau i 'gadw golwg' arnom, ac yn sicr yn gorfod riportio'n ôl ar sut yr oeddem yn llwyddo. Dros amser daeth pethau'n well ar bawb, ac 'roeddem yn gwybod ein bod wedi pasio yr arholiad pan ddywedodd y Matron, mewn un cyfarfod wrthym: *"We can no longer afford to send our Nurses to help you out in the School. We are withdrawing them as from Monday."*

Mewn amser, bu inni ddechreu mynd a'r plant allan am dro i'r gymuned pan fyddai hi'n braf. Cefais fy ngalw i gyfarfod brys a Matron Hesketh, dynas benderfynol, a phawb ei hofn, yn llythrennol. 'Doedd hi yn ddim ond tua phedair troedfedd a chwech modfedd o daldra, ond 'roedd hi fel *"Pocket Battleship*". Hi oedd Brenhines y Castell. Gofynnodd imi a oeddwn yn meddwl ei bod hi'n deg, *"to submit the community to the sight of a crocodile of handicapped children, they will be frightened by them."* Atebais innau, *"If I thought you were serious Matron I'd be very sad. We shall not take them out in crocodile form, Matron, but in acceptable small groups."* A hithau'n gwenu ac yn ateb, *"Testing, Testing"*. A thro arall, ar ôl rhyw flwyddyn gyda'n gilydd cawsom ar ddallt *"Variety Club of Great Britain"* am brynu Mini-bus inni. Daeth y Pen-Gweinyddwr i'n gweld a dweud wrthom. *"I hear, you're thinking of having a Mini-bus on the premises, you can put that business on hold, we forbid it. I will put a stop to this nonsense."* Daeth y bws. Daeth yntau, Mr. Noble i'n gweld a dweud, *"I thought I'd put a stop to this nonsense, we're not having it."* 'Dwi'n cofio deud wrtho, *"Mr Noble, the first trip out is on Friday morning at ten o'clock, and I shall be driving, If you hope to stop me I shall see you at the Main Gate."* 'Doedd dim sôn amdano pan aethom drwy'r giat y Dydd Gwener hwnnw. A chawsom ni ddim trafferth wedyn.



Y peth gwaethaf am y swydd yn Ysgol Ysbyty Olive Mount, fel aeth amser yn ei flaen, oedd dreifio i mewn i'r Ysbyty bob bore ac wrth fynd i mewn drwy'r giat roedd y marwdy, y 'mortuary', ar y chwith. A phan oedd plentyn wedi marw, ac yr oedd hynny yn digwydd yn achlysurol, byddai y golau uwchben y drws ymlaen. Wedyn, y cwestiwn cyntaf ar wefus pawb oedd: "Pwy sydd wedi marw?" Munudau dwys oedd y rhain. Byddaf yn cofio am byth, John Donato, un o'r rhai bychan fyddai'n gallu cerdded i'r ysgol. Bachgen golygus, gwallt melyn cyrliog a llygaid glas tlws. 'Roedd ar fin cael ei fabwysiadu gan Weinidog a'i wraig oedd yn byw yn weddol agos. Y sioc pan yr ateb oedd, *"John Donato, had a fit and went into 'status' and died."* Anodd iawn oedd dod i delerau o gwbl a neb pan fyddai trasiedi felly yn digwydd. 'Roedd gennym fachgen yno o'r enw 'Joe Conway'. 'Roedd Joe yn dioddef o 'Spina Biffida' drwg ac mewn cadair olwyn yn feunyddiol. Byddai Joe yn cyrraedd yr ysgol bob bore yn ei gadair, ar ôl ei phwsio bob cam o'i Ward i fyny'r allt i'r top. Llwyddai i symud yr olwynion mawr a'i ddwy law, a oedd yn gamp anodd ar ei ben ei hun. Byddwn yn gwneud i'r athrawon newydd wneud hynny er mwyn iddynt gael deall y ffasiwn gamp oedd hi. Byddai Joe yn cyrraedd yr ysgol bob bore a gwên ar ei wyneb, ac yn gweiddi "Good-Morning" ar bawb. Byddwn yn aml yn dweud wrth ein cyd weithwyr, *"If Joe can put a smile on his face every morning, so can we."* 'Roedd Joe yn engraifft wych o blentyn dengar. Roedd yn ysbrydoliaeth i bawb.

Daeth yr Ysgol yn un hapus dros ben, a'r merched, a'r ychydig ddynion, a oedd yn athrawon a gweithwyr yno, y rhai gorau a weithiais i â hwy erioed. 'Roedd gennym feddwl y byd ohonynt. Dysgu datblygiadau cynhenid cynnar oedd ein gwaith, nid dysgu darllen ac ysgrifennu, ond dysgu byw, a chyd fyw, a gwella rhyw ychydig bob mis ar rai o wersi pwysicaf bywyd. Dysgu chwarae a chyd ganu. Ie, dysgu sut i  chwerthin a bod yn hapus, a sut i fod yn fwy hyderus yn cyflawni pethau sylfaenol bywyd. Dysgu sut i wneud y pethau bychain, a thyfu i fyny i allu gwneud gymaint a allent eu hunain, ac i fod yn bersonau pwysig yn eu tŷb eu hunain. 'Roedd y merched yma wedi blino erbyn diwedd pob dydd, ac wedyn yn mynd adref i edrych ar ôl eu teuluoedd eu hunain. Ar y pryd 'roedd y merched cynorthwol yn cael cyflog sâl iawn, ac yn gweithio am beth a elwid yn 'pin money'. A byddent fel criw yn mynd i Thingwall Hall bob nos Wener i ddawnsio gyda'r dynion anabl, oedd yng ngofal y Mynachod yn y fan honno. Y "Brothers of Charity" fel y'i gelwid.

Aeth Hilda a mi, wedi cael gwadd, i 're-union', ychydig cyn y Nadolig, am fod yr ysgol newydd, a adeiladwyd ar y safle pan bu imi adael, i gymeryd swydd newydd, yn cau i lawr ac yn symud i fangre newydd. Pan aethom i mewn i ystafell yr aduniad, braf oedd cael clapiad o groeso. 'Roeddent i gyd yn siarad am y "Good Old Days". Sefydliad hapus iawn oedd, a braint oedd cael bod yno ar gyfnod mor bwysig. Braf meddwl heddiw nad oes angen i unrhyw fam wrando ar neb yn defnyddio'r gair "ineducable". Daeth newydd fyd, a chawsom ysgol newydd sbon. Daeth Penseiri i'n byd, a threuliais oriau lawer hefo nhw yn trefnu sut Ysgol oedd hi'n mynd i fod, a sut ofyniadau a allai gynorthwyo'r dysgu. Ysgol liwgar a goleu, gyda phob moethusrwydd ynddi, ysgol arbennig i'r dyfodol oedd y cynllun. Ysgol i blant nad oeddynt ac un adeg ddim yn deilwng o gael addysg o gwbl.  Gwir newid ar fyd. Pan agorwyd yr ysgol yn ffurfiol daeth y Dame Vera Lynn yno i agor y pwll nofio

yr 'Hydrotherapy' moethus. Dyna ichwi beth oedd cam ymlaen yn lerpwl.

Ond pan oedd yr ysgol newydd ar agor, gofynnwyd imi fynd i weithio i'r Swyddfa Addysg fel cynghorwr cynorthwyol ar Addysg Arbennig y ddinas i weithio i Sir Thomas Street yng nghanol Lerpwl. Gweithiais yno am flwyddyn, yn cymeryd cyfrifoldeb am Ddosbarthiadau Siawns, yr "Opportunity Classes", ac Ysgolion Preswyl yr Awdurdod. 'Roeddwn yn ddigon hapus yn gwneud y gwaith hwn, ond yn colli y berthynas dyddiol gyda'r plant anabl. Colli y wefr o fynd i'r ysgol bob dydd, coeliwch neu beidio. 'Doeddwn i ddim yn cael yr un wefr o ddarlithio ac arolygu, er fod y gwaith yn ddigon teilwng a phwysig. A phan gynigiais am swydd fel Prif Athro Ysgol Princes, bum yn ddigon ffortunus i gael fy apwyntio. Erbyn hyn hefyd 'roeddwn wedi cael fy apwyntio yn Ustus Hedwch yn Lerpwl. Bum yn gweithio am flynyddoedd ar y Fainc Oedolion a hefyd llawer iawn ar Fainc Y Plant. Parhais yn Ustus Heddwch am rai blynyddoedd, hyd nes aeth gofynion fy ngwaith fel Prifathro, a newidiadau mawr ym myd Addysg yn gyffredinol, yn drech. Bu'n rhaid rhoddi gorau i waith y fainc. Daeth y gair, "Integration" yn boblogaidd, a minnau wedi fy nhrwytho yn y gair, "Segregation". Anodd iawn oedd ymladd fy nghornel yn erbyn sefydliadau oedd eisiau arbed arian ymhob cyfeiriad. Mae Addysg Arbennig yn ddarpariaeth ddrud iawn ac mae sefydlu Unedau baeh mewn Ysgolion Cyffredin yn gymharol rad. Anodd iawn oedd cyfiawnhau y gwariant, pan oedd y rhieni mor awyddus i'w plant fynd i ysgol gyffredin, fel eu cyfoeswyr. Ond, lle brwnt iawn yw iard ysgol gyffredin i unrhyw un sy'n wahanol yn gorfforol. Ac mae mwy o fwlio'n mynd ymlaen y dyddiau hyn nac erioed o'r blaen.

*(i'w barhau)*

## CYNGERDD CAROLAU CORAWL CYMRY LERPWL

Cynhaliwyd cyngerdd carolau blynyddol Corawl Cymry Lerpwl yn Neuadd y Philharmonic yng nghanol mis Rhagfyr. Sêr oedd thema y cyngerdd ac un o sêr y cyfryngau oedd yr arweinydd sef Alex Jones, cyflwynydd llwyddiannus a phoblogaidd y BBC. Bu llawer o'r gynulleidfa yn mwynhau clywed ei hanes ar y 'The One Show' a'i hamser fel cystadleuydd ar "Strictly Come Dancing" er bod yna nifer a fuasai wedi hoffi cyflwyniad gyda mwy o bwyslais ar yr eitemau Nadoligaidd. 'Roedd Band Arian Llaneurgain yn perfformio cerddoriaeth o'r radd uchaf unwaith eto o dan eu harweinydd newydd Andrew Berryman.

# LLIFOGYDD YN LERPWL

Tybed mewn difri mae rhywbeth newydd ydyw'r holl stormydd a'r llifogydd yma yr ydym yn ei gael y dyddiau hyn?

Yn ddiweddar fe ddeuthum ar draws erthygl mewn hên rifyn o'r Dysgedydd, dyddiedig mis Ionawr 1834, a dyfynnaf air am air, yn cynnwys yr atalnodau, yn union fel yr ysgrifennwyd yn yr erthygl wreiddiol.

***Tymestl fawr yn Llynlleifiad,--*** Yn ddiweddar yn Llynlleifiad bu ystorm gyda'r fwyaf ag ydys yn cofio, yr hon a barhaodd o brydnawn ddydd Iau hyd hwyr ddydd Gwener, a gwnaeth niweidiau mawrion ar y tir, a cholledion mawrion ar y mor. Yr oedd y gwynt mor gryf fel y teflid i lawr fwgdyllau, priddfeini, &c. yn enwedig yn rhanau uchaf y dref, gan beri i'r tai cadarnhaf grynu.Yn y boreu ddydd Gwener yr ydoedd wedi cynnyddu, a tua deg o'r gloch bernir bod y gwynt wedi cyrhaedd y man uchaf. Ar yr un pryd dywedir bod y gwlaw yn syrthio i lawr yn genllif, yr hwn – gyda'r gwynt garw - a'i gwnaeth bron yn anmhosibl cerdded yr heolydd. Y llanw yr hwn a ddylasai godi yn unig i 18 droedfedd, a gododd i 24; ac yr oedd y tonau cynddeiriog ar yr afon yn ddigon i beri i un cnawd frawychu. Cafodd amryw golledion mawrion mewn amrywiol ffyrdd.---Aeth lluaws o lestri allan ddydd Iau, ond bu orfod iddynt droi yn ol mewn perygl o fyned yn ddrylliau. Y personau ag oeddynt allan yn y dymestl hon, a'i darluniant yn un o'r rhai mwyaf dychrynadwy a ddarfu iddynt erioed brofi.

***Roderick Owen***

**Cystadleuaeth Cwis Cyfoes (Chwefror 2016)**

## Pwy yw Pwy yn Lerpwl a Chymru?

Rhowch enw y person sydd yn y llun a gair amdani neu amdano
(er enghraifft lle mae'n byw neu ffaith amdanynt).
Anfoner yr ymgais i'r Golygydd (trwy we neu'r post) erbyn 1 Chwefror 2016.
Caiff y buddugwyr wobrau


1


2


3


4


4


6

Daeth y lluniau trwy gamera Dr. J. G. Williams (Tachwedd a Rhagfyr 2015)
a'r gwobau trwy Gyhoeddiadau Modern Cymreig

# *‘DI-BEN-DRAW’:*
# *HUNANGOFIANT D. BEN REES*
### *(Y Lolfa, 2015. Pris clawr meddal £12.99)*
## *ADOLYGIAD gan HUW EDWARDS*


Gallaf ddatgan yn gwbl hyderus bod y cyfaill D. Ben Rees, un o’n hawduron mwyaf diwyd, wedi rhagori arno’i hun yn ddirfawr: mae ei hunangofiant ‘Di-Ben-Draw’ yn berl o gyfrol. Dyma lyfr darllenadwy a gonest sy’n olrhain hanes bywyd ‘Ben Abercarfan’, mab fferm o Landdewibrefi a dyfodd i fod yn gyhoeddwr a newyddiadurwr a gwleidydd ac ymgyrchydd – yn brif symbylydd bywyd Cymraeg dinas Lerpwl – ac wrth gwrs yn un o weinidogion amlycaf a mwyaf poblogaidd yr oes fodern.

Y peth cyntaf i’w nodi am y gyfrol yw natur yr arddull: mae iaith yr hunangofiant yn ddi-lol a chartrefol, y naratif yn gwbl ddirodres, a’r traethu yn glir a bachog. Camp anghyffredin yw medru llunio cyfrol y bydd ei chynnwys a’i chystrawen yn apelio at ystod eang o ddarllenwyr.

Darllenais ddwsinau o gofiannau a hunangofiannau gweinidogion Cymraeg dros y blynyddoedd. Bu’r profiad yn aml yn un diflas oherwydd tuedd anochel yr awduron i greu byd artiffisial. Yr argraff a geir gan amlaf yw mai seintiau oedd y gweinidogion dan sylw, seintiau’n byw bywydau perffaith mewn paradwys o gapeli gorlawn.

Fe ddylech anghofio’r hen duedd ddiflas honno yng nghyswllt ‘Di-Ben-Draw’. Dyma gyfrol sy’n frith o sylwadau dadlennol a gonest am gymeriadau ac agweddau a phrofiadau a digwyddiadau. Mae gan Ben arddull sicr sy’n cynnal diddordeb y darllenydd, ac sydd hefyd yn gallu synnu a syfrdanu. Peidiwch, da chi, â meddwl mai cyfrol boléit, sidêt yw hon. Mae ’na sawl ergyd loriol ynddi: ceir ambell darged disgwyliadwy (Margaret Thatcher), ond mae ’na ddigon o dargedau eraill, gan gynnwys yn anfarwol Robyn Lewis, sy’n cael cic haeddiannol yn ei ben ôl am iddo watwar y syniad call o gynnal y Brifwyl yn Lerpwl.

Hwyrach y bydd nifer yn disgwyl mai’r penodau ar gyfnod maith Ben yn Lerpwl fydd yn rhoi’r pleser mwyaf. Ond i mi, mae’r penodau agoriadol ar ei blentyndod yn Sir Aberteifi, ar gyrion pentref Llanddewibrefi, yn cynnig blas cyfoethog o’r cynfyd mewn ardal a adwaenid am gyfoeth ei diwylliant a chryfder ei Chymreictod dilychwin (newidiodd hynny yn enbyd, fel y sonia Ben yn y darn ar angladd ei dad yn 1979). Pwysodd yn drwm ar ei dadcu, David Benjamin, oherwydd absenoldeb ei dad yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a bu colli ei dadcu yn 1943 yn ergyd drom iawn i’r bachgen ifanc. Ond diolch i’w ddylanwad, gosodwyd Ben ar lwybr crefydd ac yn ei arddegau fe ymdeimlodd â galwedigaeth i’r weinidogiaeth ordeiniedig: ‘Er mai llencyn ysgol oeddwn… roeddwn wedi fy argyhoeddi i’m rhoi fy hun i waith Duw am byth fel gwas yr Arglwydd Iesu’.




Cawn ddisgrifiad lliwgar o staff a disgyblion Ysgol Sir Tregaron (er mawr warth i’r ysgol, ni dderbyniodd yr un gwahoddiad i ddychwelyd yno ers iddo adael yn 1955) ac mae na ddigon o sôn am ei hoffter o bêl-droed (gan gynnwys sawl gêm yn erbyn fy nhad ar Gae Sgwâr enwog Aberaeron) a’i brysurdeb diddiwedd ym mhob agwedd o fywyd cefn gwlad Sir Aberteifi.

Un o’r elfennau mwyaf cyfareddol i mi (fel newyddiadurwr a dreuliodd flynyddoedd yn San Steffan) yw datblygiad credo Sosialaidd y gwr ifanc o Landdewibrefi. Bu Ben yn Llafurwr selog a phybyr ar hyd ei oes. Datblygodd ei ddiddordeb yn y brifysgol yn Aberystwyth lle bu’n un o sylfaenwyr y Clwb Llafur yno, ac yn ddiweddarach bu’n ymgeisydd seneddol Llafur yng Nghonwy (fe’i trechwydd ddwywaith gan y Ceidwadwr Wyn Roberts) ac yn un o hoelion wyth mudiadau heddwch a CND ar hyd y blynyddoedd. Fe bwysleisia bob amser fel y bu’n gallu cydweithio ag aelodau Plaid Cymru ar faterion o bwys ond – nid beirniadaeth yw hon o gwbl – fe garwn glywed mwy am benderfyniad Ben i fwrw gwreiddiau ar dir Llafur yn hytrach na thir y Blaid. Hwyrach bod ei sylw am amgylchiadau cyfyng a chyni oes ei dad-yng-nghyfraith, y Parchedig Arthur Llewellyn o Abercwmboi, yn taflu goleuni pellach: ‘Sut y medrai unrhyw weinidog fod yn ddim byd ond Sosialydd oedd yn ddirgelwch i mi yr adeg honno.’

Cawn ddisgrifiadau ingol o drychineb Aberfan yn 1966 yn ystod cyfnod Ben fel gweinidog ifanc yn y cylch. Bu’r blynyddoedd yn ardal Abercynon yn rhai cynhyrfus, digwyddlawn. Priododd yn 1963 â Meinwen, athrawes ac un o ferched y cwm, ac fel y gŵyr eu holl gydnabod yn Lerpwl a Chymru, bu hithau yn gefn anhepgor iddo dros y degawdau. Cyflawnodd hithau waith pwysig iawn ym myd addysg Gymraeg ac ym mywyd Cymraeg dinas Lerpwl. Ganed iddynt ddau fab, Dafydd a Hefin, ac y mae llwyddiant eglur y ddau yn eu meysydd priodol yn destun balchder mawr i’w rheini.

Denwyd Ben i Lerpwl yng Ngorffennaf 1968, i eglwys Bethel, Heathfield Road, ac yno y bu’n gwasanaethu yn eithriadol o ddiwyd ac ymroddedig hyd y dydd heddiw. Sut ar y ddaear y llwyddodd i gyflawni’r amhosibl? Bu’n gyhoeddwr prysur (mae stori Cyhoeddiadau Modern Cymreig yn werth ei darllen yn y gyfrol a gyhoeddodd ‘Dyddiau o Lawen Chwedl’), yn ddarlithydd, yn academydd, yn ymgyrchydd gwleidyddol a chymdeithasol, ac yn fugail diflino ar ei braidd ddinesig.

Lluniodd sawl pennod ar ei gyfnod maith yn Lerpwl – gan gynnwys esboniad prydferth a theimladwy ar waith bugeilio – a thestun pleser i mi oedd gweld adroddiad ar y diwrnod ysgubol hwnnw ym Mai 2015 pan ddaeth tyrfa enfawr i’r ddinas (gan gynnwys cyfeillion o Batagonia) ar wahoddiad Ben – adeg dadorchuddio cofeb i’r cwmni a hwyliodd ar y Mimosa yn 1865. Mae na drysor o wybodaeth yn y penodau ar Lerpwl. Gellir dweud yn ogystal y dangosodd Ben y ffordd ymlaen i gynulleidfaoedd dinesig eraill: ad-drefnwyd capeli Lerpwl (a dymchwelwyd ei Fethel hoff yn 2007) ond mae’n dal ati i wasanaethu ei bobl yn ddidwyll a ffyddlon.


Rhaid llongyfarch Ben yn wresog iawn ar lunio cyfrol gyfoethog a gwerthfawr. A gyda llaw, dyma anrheg delfrydol ar ddiwedd blwyddyn! Fe gewch fwynhad ‘di-ben-draw’, mae hynny’n sicr.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones,*
*Ty’n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*

# Lansio Dwy Gyfrol ar gyfer Y Nadolig

**Cyfrol Capel Waeungoleugoed a hynny ar Nos Lun, 9 Tachwedd yng Nghapel y Waen. Pris £10**



*Y Cyhoeddwr a'r Golygydd - Yr Athro Mari Lloyd-Williams*




*David Mawdsley a Tecwyn Ifan*



*Parch Emyr Lyn Evans, Caerfyrddin (cyn-weinidog 1964-66)*

---

## Cyfrol DI-BEN-DRAW (Pris: £12.99)




*Y deisen ar lun y gyfrol*



*Dau o fyd y gyfraith: Arwel Williams, Roby a Jim Boyd, Aughton*



*Y Cynghorydd Meirick L. Davies, Cefnmeiriadog yn pwrcasu Di-Ben-Draw ar noson y lansio*



*Meinwen a Ben yn torri'r deisen*

*LLUNIAU: DR. JOHN G. WILLIAMS*

### *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Mawrth 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 30 Ionawr, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk
ii) **Rhifyn Ebrill 2016** – erbyn bore Sadwrn, 27 Chwefror, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.
iii) **Rhifyn Mai 2016 –** erbyn bore Iau, 31 Mawrth, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 1 Ebrill 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk